# Herio agweddau’r cyhoedd tuag at gam-drin domestig a thrais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â’ch gallu i herio agweddau’r cyhoedd ac agweddau sefydliadol tuag at gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cydnabyddir bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o raddfa, effaith ac arwyddion cynnar cam-drin posibl yn tueddu i fod yn isel, a gall fod camsyniadau am beth yw cam-drin a phwy sy’n gyfrifol amdano.

Mae’r safon hon yn cynnwys eich gallu i weithredu ynghylch cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth a, hefyd, i herio camsyniadau o’r fath.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi ac ymateb i gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymwybyddiaeth sefydliadol o gam-drin domestig a thrais rhywiol yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
2. hyrwyddo buddion codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch cam-drin domestig neu drais rhywiol ymhlith eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
3. gweithio gydag eraill i herio ffactorau a allai effeithio ar unigolion y mae cam-drin domestig neu drais rhywiol wedi effeithio arnynt
4. herio enghreifftiau o ragfarn yn briodol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. defnyddio'r cyfryngau, fel y bo'n briodol, i herio agweddau'r cyhoedd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
6. monitro cyfathrebiadau gan eich sefydliad yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau, gan wneud yn siŵr nad yw cynnwys yn atgyfnerthu agweddau gwahaniaethol a niweidiol
7. ceisio cymorth gan eraill pan gewch chi heriau wrth fynd i'r afael ag ymddygiad ac agweddau gwahaniaethol a gormesol
8. cyflwyno gwybodaeth i bobl eraill sy'n helpu i herio agweddau a dealltwriaeth y cyhoedd
9. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy’n berthnasol i’ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i’r gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a’r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. rôl, cylch gwaith, amcanion a gwasanaethau eich sefydliad ar gyfer mynd i’r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol
5. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
6. arwyddion o gam-drin a’r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
7. effaith cam-drin ar bawb y mae’n effeithio arnynt, gan gynnwys unigolion a dibynyddion
8. mathau o wybodaeth a chymorth y mae pobl sydd wedi’u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio, a ffynonellau’r wybodaeth a’r cymorth hynny
9. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o’ch gwerthoedd a’ch credoau eich hun a’r effaith y gallant ei chael wrth weithio gydag unigolion
10. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
11. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
12. ffynonellau gwybodaeth ac ymchwil gyfredol, berthnasol am gam-drin domestig a thrais rhywiol
13. mentrau cenedlaethol a lleol sy’n anelu at • herio agweddau’r cyhoedd ac agweddau sefydliadol
• codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a thrais rhywiol
14. rhwystrau rhag dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd a sefydliadol ynghylch cam-drin domestig a thrais rhywiol
15. sut i ddefnyddio’r cyfryngau i herio agweddau’r cyhoedd

## Geirfa